

Rhif: WG25369



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru



Dyddiad cyhoeddi: **4 Mehefin 2015**  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **27 Awst 2015**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer fframwaith strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru. Mae'r cynigion wedi'u datblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru (UAC), NFU Cymru, CLA Cymru, y Ganolfan Datblygu Llaeth, Hybu Cig Cymru, CFFI Cymru, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a Chymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru. Mae cyrff eraill y diwydiant hefyd wedi cyfrannu. Mae'r fframwaith yn cynnig gweledigaeth ar gyfer diwydiant ffyniannus a chydnerth ac mae'n disgrifio'n fras sut y gallai cydweithio roi inni arweiniad cryf a chytûn, gan ddod â pholisïau, cynlluniau ac adolygiadau ynghyd i fynd â'r diwydiant yn ei flaen mewn ffordd unedig.

## Sut i ymateb

Anfonwch eich ymatebion i'r cwestiynau i'r cyfeiriad o dan y manylion cysylltu.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

For further information:

Cangen Strategaeth Amaethyddol  
a Profi Cefn Gwlad  
Yr Is-adran Amaethyddiaeth a Materion  
Gwledig  
Llywodraeth Cymru  
Tŷ Ladywell  
Y Drenewydd  
SY16 1JB

e-bost: [ASRPEnquiries@wales.gsi.gov.uk](mailto:ASRPEnquiries@wales.gsi.gov.uk)

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

Rhagair – Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd	1
Cyflwyniad	3
Ein gweledigaeth	5
Y cyd-destun ehangach – heriau, cyfleoedd a bygythiadau	6
Sut mae mynd â'r Fframwaith yn ei flaen	9
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	10
Atodiad I – Adroddiadau craidd ac adolygiadau o'r diwydiant	12
Atodiad II – 'Papur egwyddorion'	13



**Rebecca Evans, AC**  
**Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd**

## **Rhagair**

Mae'n bleser cael dechrau'r ymgynghoriad hwn ar y 'Fframwaith Strategol ar gyfer Amaethyddol Cymru'. Byddaf yn ei lansio yng Nghynhadledd Ffermio Cymru 2015 ar y cyd ag Emyr Jones, Llywydd UAC a Stephen James, Llywydd NFU Cymru. Mae'r cynigion ar gyfer y fframwaith wedi'u datblygu ar y cyd â'r ddau undeb ffermwyr, CLA-Cymru a rhanddeiliaid eraill. Maen nhw a chyrff eraill y diwydiant eisoes wedi datblygu egwyddorion er mwyn i'r diwydiant allu gweithio gyda'i gilydd i gael y gorau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Y gwaith hwnnw ynghyd â gwaith pwysig arall gan gynnwys Hwyluso'r Drefn yw'r man cychwyn ar gyfer y cynigion ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Mae nifer o gyrff eraill y diwydiant wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn sy'n disgrifio'n gweledigaeth gytûn a sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Cyd-ymdrech yw hon o dan arweiniad pob rhan o'r diwydiant.

Hanfod ein gweledigaeth gytûn yw diwydiant ffyniannus a chynaliadwy. Mae ei llwyddiant yn dibynnu ar fusnesau fferm modern, proffesiynol a phroffidiol a chanddynt ddyfodol tymor hir. Carem ddiwydiant sy'n edrych tua'r dyfodol; sy'n defnyddio'r arferion gorau; sy'n gweithio i ddiogelu a gwella pridd, dŵr a'r amgylchedd naturiol – sylfeini cynhyrchiant amaethyddol; busnesau fferm cryf sy'n gallu gwrthsefyll anawsterau; diwydiant sy'n cynnig amrywiaeth eang o 'gynhyrchion' o'r radd flaenaf; diwydiant sy'n creu swyddi crefftus. Yn gryno felly, diwydiant cydnerth a chynaliadwy sy'n cyfrannu at les a ffyniant Cymru.

Rydym yn cynnig gweledigaeth tymor hir, y dadleuon o'i phlaid a chynigion cychwynnol ar gyfer ei gwireddu. Rhan annatod o hynny yw'r angen inni – Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a ffermwyr unigol – i weithio gyda'n gilydd. Rydym yn cynnig ein bod yn gweithio mewn partneriaeth, o dan arweiniad y diwydiant. Caiff gweithgorau eu sefydlu i baratoi cynlluniau gweithredu manwl. Rydym yn fwriadol heb roi amserlen gan mai ffordd o weithio i wireddu gweledigaeth yw'r fframwaith hwn â dweud y gwir. Caiff yr amcanion a'r amserlenni eu pennu gan gynlluniau gweithredu manwl a bydd y cynlluniau hynny'n ystyried ac yn cynnal y myrdd bolisiau a chyn bwysiced, y myrdd argymhellion a gynigiwyd gan yr adolygiadau annibynnol sydd wedi'u cynnal dros y blynyddoedd diwethaf.

Yr egwyddorion sy'n llywio'n gwaith yw bod llawer mwy yn cael ei wneud trwy weithio gyda'n gilydd a bod yn rhaid i ffermio ddod yn ddiwydiant cynaliadwy yn ei ystyr ehangaf. Mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn disgwyl ymlaen at glywed eich ymatebion a sut yr hoffech weld y diwydiant yn mynd yn ei flaen yn y dyfodol.

## Cyflwyniad

### Pam mae angen fframwaith strategol arnom ar gyfer amaethyddiaeth Cymru

1. Mae amaethyddiaeth Cymru'n bwysig i Gymru ac rydym am iddo ffynnu. Mae gennym gryfderau ond mae mwy y gallwn ei wneud i wireddu ei botensial. Ceir cyfleoedd ar gyfer y diwydiant, ond mae heriau a bygythiadau hefyd y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Y fframwaith strategol yw ein cynnig ni ar gyfer gweithredu'n gytûn i wireddu'r potensial hwn. Mae 80% o dir Cymru yn dir amaethyddol. Mae'r diwydiant amaeth yn cyfrannu £244<sup>1</sup> miliwn y flwyddyn fel Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ac mae'n allweddol o ran ffurfio a chynnal tirwedd ac amgylchedd naturiol Cymru. Ffermio yw un o brif gyflogwyr ein hardaloedd gwledig, gyda chysylltiadau cryf â'r sector bwyd a diod a greodd drosiant yn 2013 o £5.7 biliwn<sup>2</sup>. Roedd 44,600<sup>3</sup> yn gweithio i'r is-sector ffermio a bwyd yn 2013. Dengys ymchwil ddiweddar fod ffermydd teuluol Cymru yn prynu dros 80% o'u nwyddau a'u gwasanaethau o fewn cylch o 25 milltir o'r fferm<sup>4</sup>, gan wneud cyfraniad mawr at les economïau a chymunedau lleol. Yn wahanol i rannau eraill o'r DU, mae'r cysylltiadau diwylliannol â ffermio ar draws Cymru yn parhau'n gymharol gryf, ac mae amaethyddiaeth yn parhau i chwarae rhan bwysig o ran denu twristiaid a chynnal yr iaith Gymraeg. Mae gan y diwydiant fanteision amlwg, gan gynnwys hinsawdd deg, digonedd o ddŵr, marchnad anferth yn y DU a'r UE, cynhyrchion o ansawdd cydnabyddedig a pherthynas glos rhwng Llywodraeth Cymru a chyrrff y diwydiant.
2. Serch hynny, mae gan ddiwydiant ffermio Cymru botensial sydd heb ei wireddu. Gallai ei GVA dyfu a rhoi hwb i £52.1 biliwn<sup>5</sup> GVA Cymru (2013). Mae heriau mawr tymor hir a byr yn wynebu amaethyddiaeth, fel amodau'r farchnad, problemau amgylcheddol ac iechyd anifeiliaid a goblygiadau ehangach o ran defnyddio adnoddau. Mae'n ddibynnol iawn ar gymhorthdal uniongyrchol y PAC ac mae safonau perfformiad technegol a busnes yn amrywio. Mae adolygiadau ac argyfyngau achlysurol wedi awgrymu bod angen newid. Hefyd, er gwaethaf llwyddiant llawer o fusnesau ac unigolion ym mhob rhan o'r wlad, gall y diwydiant a Llywodraeth Cymru o weithio gyda'i gilydd fynd lawer ymhellach i wireddu potensial amaethyddiaeth er lles Cymru gyfan. Mae angen inni hefyd gael y cyhoedd i ddeall mor bwysig yw'r diwydiant i Gymru.

---

<sup>1</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/priority-sector-statistics/?lang=en>

<sup>2</sup> Inter-Departmental Business Register (IDBR), ONS

<sup>3</sup> Annual Population Survey, ONS

<sup>4</sup> Arsyllfa Wledig Cymru (2013) An Analysis of the Socio-Economic Impact of CAP Reforms on Rural Wales Phase 3, 4, and 5 Report: Impact on Rural Society and Economy. Ceir yr adroddiad llawn yn: <http://www.walesruralobservatory.org.uk/sites/default/files/An%20Analysis%20of%20the%20Socio-Economic%20Impact%20of%20CAP%20Reformson%20Rural%20Wales%20Phase%203%2C%204%20and%205%20Report.pdf>

<sup>5</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol (Rhagfyr 2014) Workplace based GVA (I) for Wales' figure

3. I gyflawni'r amcanion hyn, mae angen gweledigaeth gref, clir a chyffredin o'r hyn sydd ei eisiau arnom. Mae angen inni drefnu'n hymdrechion a chyd-dynnu – mewn geiriau eraill, mae angen fframwaith strategol arnom y gallwn ei ddefnyddio i roi trefn a ffurf ar ein hymdrechion.

### **Am beth y mae'r ymgynghoriad hwn?**

4. Mae'r ddogfen hon yn wynebu'r her honno. Mae'n cynnig gweledigaeth ac yn gwneud cynigion ynghylch sut y gallwn weithio gyda'n gilydd. Gofynnir am eich ymatebion i'r ffordd hon o weithio.
5. Rydym yn cynnig 'fframwaith', nid strategaeth. Mae'n cynnig yn ymwneud â'r hyn rydym am weithio ato – y 'weledigaeth' – a sut yn ein barn ni y gallwn weithio gyda'n gilydd i'w gwireddu. Nid ydym yn cynnig y manylion nac yn pennu cynlluniau na thargedau. Mae'r manylion hynny'n bwysig. Mae ychydig fanylion wedi'u paratoi – ond lle nad ydynt, bydd yn rhaid eu creu, cytuno arnynt a'u gweithredu, ond nid dyna waith y ddogfen hon. Diben y ddogfen hon yw pennu'r cyfeiriad a'r egwyddorion y gallwn fynd i'r afael â'r her drwyddynt. Yr egwyddor ganolog yw na all yr un sefydliad, boed Lywodraeth Cymru na chyrrff y diwydiant, ar ei ben ei hun sicrhau dyfodol proffidiol a ffyniannus i amaethyddiaeth yng Nghymru.
6. Ffrwyth gwaith Llywodraeth Cymru, yr undebau ffermio a chyrrff y diwydiant yw'r cynigion hyn i ddatblygu gweledigaeth gytûn a ffordd o weithio er lles tymor hir y diwydiant a Chymru. Dechreuodd y daith hon gyda 'Hwyluso'r Drefn'; datblygwyd hwnnw ymhellach pan ddaeth nifer o gyrff allweddol y diwydiant ynghyd i gynnig egwyddorion ar gyfer gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r manteision mwyaf o'r Rhaglen Datblygu Gwledig (**Atodiad 2**). Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam pwysig arall yn y broses honno. Ein barn ni o'r modd y gallwn fynd yn ein blaenau ydyw, gan dynnu ar Hwyluso'r Drefn a'r egwyddorion yn arbennig.

## Ein gweledigaeth

7. Mae ein gweledigaeth yn un syml. Rydym am weld:

*‘Diwydiant amaethyddol ffyniannus a chydnerth sy’n hybu lles Cymru, nawr ac i’r dyfodol.’*

8. Mae ‘ffyniannus’ yn golygu busnesau fferm ac ati sy’n gwneud elw, yn creu swyddi crefftus ac sy’n dod â lles economaidd eang. Mae ‘cydnerth’ yn golygu busnesau cadarn sydd felly’n gallu wynebu anawsterau economaidd a naturiol ac a fyddai hefyd yn gallu dygymod â’r lleihad a ddisgwylir yn y cymorth uniongyrchol a geir gan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Rhaid i amaeth Cymru ganolbwyntio ar y farchnad, bod yn ymwybodol o’r galw heddiw a chyfleoedd yfory. Rhaid i’r cynhyrchu fod yn gynaliadwy yn ei ystyr ehangaf – yn economaidd ac yn amgylcheddol. Mae’r canlyniadau hyn yn gydnaws â’i gilydd. Er bod rhai busnesau fferm yn canolbwyntio ar un cynnyrch, bydd yna rai fydd mewn sefyllfa i gynhyrchu mwy nag un neu i ddatblygu ystod ehangach o ‘gynnyrch’ fel ynni adnewyddadwy neu reoli’r amgylchedd naturiol neu ddŵr.
9. Bydd busnesau sy’n gwneud y pethau hyn yn dda yn ffynnu a lawn cyn bwysiced, yn cyfrannu at les Cymru heddiw ac yfory.

## Y canlyniadau rydym am eu gweld

10. Rydym am weld y diwydiant amaeth yn datblygu er mwyn iddo allu gwireddu ei botensial llawn o ran:

- Bod yn fwy cynaliadwy – o safbwynt economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Bod yn gynhyrchydd amrywiaeth eang o ‘gynnyrch’ uwch eu gwerth sy’n cwrdd â’r galw yn y farchnad, yn rhagweld tueddiadau’r farchnad yn y dyfodol ac yn manteisio’n llawn ar gyfleoedd.
- Bod yn gynhyrchydd effeithlon – gan gadw safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid, defnyddio adnoddau’n effeithiol, lleihau ôl troed carbon bach a rheoli’r amgylchedd (pridd, dŵr, organeddau naturiol) yn y ffordd orau bosibl gan gynnal a gwella cynhyrchiant a’r amgylchedd naturiol yn y tymor hir.
- Yn cynnal cynhyrchiant, heb drosglwyddo’r cynhyrchiant hwnnw a chanlyniadau problemau amgylcheddol ac eraill i wledydd eraill lle gallai safonau fod yn is.
- Defnyddio ymchwil fel ei fod yn beth cyffredin gweld yr wybodaeth a’r technegau diweddaraf yn cael eu rhoi ar waith.
- Bod yn ddiwydiant sy’n creu cyfoeth ac ystod o gyfleoedd gwaith crefftus ledled Cymru.



## Y cyd-destun ehangach – heriau, cyfleoedd a bygythiadau

11. Mae'r tudalennau a ganlyn yn amlinellu'r heriau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sydd yn ein barn ni yn wynebu'r diwydiant amaeth ac y bydd yn rhaid inni fynd i'r afael â nhw i wireddu ein gweledigaeth a sicrhau'r canlyniadau a ddeisyfwn. Rydym yn cynnig bod Grŵp Partneriaeth yn ystyried y materion hyn ymhellach wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu. Bydd hefyd yn ystyried yr adolygiadau annibynnol sydd wedi'u cynnal (rhestrir prif adolygiadau'r diwydiant yn **Atodiad 1**).
12. Rhaid cydnabod hefyd bod rhai ffactorau trwm eu heffaith sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Bydd taliadau cymorth incwm y PAC yn debygol o gwmpo eto ar ôl 2020. Maen nhw'n gallu bod yn rhwyd diogelwch i fusnesau fferm ond nhw hefyd yw'r rheswm weithiau pam mae busnesau fferm yn fwy amharod i arloesi a chofleidio newid nag y gallen nhw fod. Gall prisiau nwyddau a chyfraddau cyfnewid (e.e. yr ewro v. y bunt) oll gael effaith negyddol a phositif ar allforion a chostau mewnbynnau. Rhaid cofio hefyd bod amaethyddiaeth yng Nghymru wedi'i lwyr gymhathu â marchnadoedd y DU, yr UE a'r byd ac nad yw'n gweithredu fel ynys ar ei ben ei hun. Wrth edrych tua'r dyfodol, rhaid i amaeth Cymru fod mewn sefyllfa dda i ddatblygu marchnadoedd newydd ac i fanteisio ar y twf yng ngalw'r byd.

### Heriau

13. Er mwyn gallu gweithio at wireddu'r weledigaeth, rhaid inni gyda'n gilydd wneud y canlynol:
  - Sbarduno gwelliannau yn y diwydiant er mwyn bod yn fwy effeithlon, gwneud mwy o elw a chynyddu cynhyrchiant.
  - Annog dealltwriaeth drylwyr bod cynhyrchu, arferion ffermio da a gofalu am yr amgylchedd yn mynd law yn llaw.
  - Paratoi am y cyfleoedd a'r bygythiadau ddaw yn sgil hinsawdd sy'n newid.
  - Ehangu a datblygu marchnadoedd, codi ymwybyddiaeth am dueddiadau'r farchnad, hybu arloesedd a pharodrwydd i arallgyfeirio ac ystyried 'cynnyrch fferm' yn ei ystyr ehangaf posibl.
  - Gwella'r capasiti i wrthsefyll anawsterau o ble bynnag y dônt (e.e. y farchnad, newid yn lefel y cymorth cyhoeddus, y tywydd a digwyddiadau naturiol, neu glefydau anifeiliaid a phlanhigion).
  - Ymwreiddio egwyddorion 'Rheoleiddio Gwell' a 'Hwyluso'r Drefn', er mwyn gwneud yn siŵr bod rheoliadau'n cael eu rhoi ar waith a'u dehongli'n effeithiol ac yn briodol.
  - Addasu i'r newid i'r cymorth ariannol ddaw yn sgil Diwygio'r PAC – y cymorth incwm uniongyrchol a'r Rhaglen Datblygu Gwledig newydd – sef dwy gangen o'r un goeden.
  - Gweithio gyda'n gilydd i helpu'r cyhoedd i ddeall yn well gyfraniad aruthrol y diwydiant at les Cymru.

## Cyfleoedd

14. Mae gan amaethyddiaeth yng Nghymru lawer o fanteision a chyfleoedd a all, o'u trin yn dda, ddod â budd i fusnesau unigol a chyfrannu at les Cymru. Mae gennym:
- Amodau ffafriol ar gyfer cynhyrchu da byw, cynnyrch llaeth a chnydau â'r garddwriaethol o'r safon uchaf.
  - Potensial sydd heb ei ddatblygu ar gyfer 'cynnyrch' fel storio carbon, ynni adnewyddadwy, coedwigaeth a rheoli dŵr.
  - Cyfleoedd i greu marchnadoedd newydd yn sgil hinsawdd sy'n newid a newid yn nemograffeg y byd.
  - Cynnyrch bwyd cydnabyddedig ag iddynt farchnadoedd mawr a sefydledig yn y DU a'r UE a photensial i gynyddu allforion ac ychwanegu at werth.
  - Tirwedd werthfawr i'r diwydiant twristiaeth ond ceir potensial i wella ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.
  - Sgôp i gynllunio olyniaeth yn well gan wneud y gorau o'r hyn sydd gan ffermwyr ifanc a newydd a ffermwyr hŷn sydd â gweledigaeth, ysgogiad, sgiliau a gwybodaeth ei gynnig gyda'i gilydd.
  - Rhwydwaith sydd wedi ennill ei blwyf o sefydliadau addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf.
  - Potensial am fwy o gydweithredu o fewn y diwydiant amaeth a chryfhau cadwyni cyflenwi.
  - Y potensial i wneud y gorau o dechnolegau a chyfleoedd hen a newydd sy'n codi wrth i gysylltiadau band eang wella, diolch i waith Llywodraeth Cymru.
15. Bydd y cyfleoedd gwaith a gynigir gan amaeth Cymru a'i ddiwydiannau cysylltiedig yn arbennig o bwysig i'r economi ac yn ein helpu i drechu tlodi yng nghefn gwlad Cymru. Ceir cyfleoedd i hyrwyddo bwyta bwyd iach sy'n ddiogel, sydd ar gael yn rhwydd ac yn fforddiadwy. Rhaid i'r diwydiant amaeth roi ystyriaeth lawn i'r cyfleoedd a ddisgrifir yn y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Diwydiant Bwyd a Diod 2013-20'. Gan fod gan amaethyddiaeth bresenoldeb amlwg ledled y wlad, mae potensial felly i wasanaethu'r diwydiant y tu hwnt i gât y fferm ac i sicrhau cysylltiad gwell rhwng y bwyd a gynhyrchir a gofyn y sector cyhoeddus gan gynnwys y prydau a ddarperir gan ysgolion, ysbytai ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol; yn ogystal â gweithio gyda mentrau tyfu cymunedol a banciau bwyd.

## Bygythiadau

16. Rhaid cydnabod ac ystyried effeithiau'r bygythiadau y gwyddwn amdanynt a pharatoi ar gyfer y digwyddiadau annisgwyl a allai fygwth busnesau fferm unigol ac ambell waith, y diwydiant yn ei gyfanrwydd. Yn eu plith:
- Yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.
  - Y rhagolygon o ran newid hinsoddol ac amgylcheddol, gan gynnwys clefydau anifeiliaid a phlanhigion newydd.
  - Newidiadau yn chwaeth cwsmeriaid.
  - Newidiadau yn y gadwyn gyflenwi.

- Peidio ag arloesi a defnyddio'r arferion gorau.
- Y galw am dir a'r anghydbwysedd rhwng y cyflenwad tir a sicrwydd deiliadaeth.

### **Cynhyrchu cynaliadwy mewn diwydiant blaengar**

17. Trwy ystyried y bygythiadau, y cyfleoedd a'r heriau gyda'i gilydd, rydym wedi dod i gredu y gallwn wireddu ein gweledigaeth trwy anelu at *gynhyrchu cynaliadwy mewn diwydiant blaengar*
18. Mae *cynhyrchu cynaliadwy* yn golygu cynyddu gwerth amaethyddiaeth, cynyddu ei gyfraniad economaidd, ei lefelau cynhyrchu a'i elw mewn ffyrdd y gellir eu cynnal am y tymor hir, gan gyfyngu yr un pryd ar unrhyw sgil-ffeithiau niweidiol. Yn ganolog i hyn yw'r syniad bod 'cynnyrch' yn rhywbeth y mae fferm yn ei gynhyrchu sy'n rhoi incwm ac sy'n economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol dda. Ni ddylai gwarchod a rheoli'n hadnoddau naturiol wrthdaro â chynhyrchu amaethyddol. Gall cynhyrchu a'r amgylchedd ehangach fod mewn cytgord â'i gilydd a rhaid wrth hynny. Mae cynnyrch yn golygu bwyd i ddyn ac anifail ond gall syniad 'ehangach' o 'gynnyrch' olygu rheoli'r amgylchedd naturiol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chynyddu'r storfa garbon. Rhaid i gynhyrchu o bob math fod yn effeithlon a chynaliadwy yn ei ystyr ehangaf h.y. targedu'r defnydd o fewnbynnau, lleihau gwastraff a/neu ei ddefnyddio mewn ffordd gynhyrchiol. Mae'n golygu gwneud busnesau'n llwyddiant ariannol yn y tymor hir ac ymateb i'r hyn sydd ei angen ar y farchnad, nawr ac yn y dyfodol, defnyddio mewnbynnau ac ynni'n fwy effeithlon a gwella iechyd anifeiliaid a phlanhigion.
19. Mae *diwydiant blaengar* yn golygu meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r cynneddfau gorau ac ar ddiwylliant o fewn y diwydiant sy'n barod i edrych yn bositif tua'r dyfodol. Mae'n golygu buddsoddi mewn ymchwil a datblygu a'u defnyddio, gwella gwybodaeth a sgiliau trwy Ddatblygu Proffesiynol Parhaus o ddewis, defnyddio ymchwil i'r farchnad, defnyddio arferion gwell a mabwysiadu'r technolegau gorau. Mae'n golygu hyrwyddo arferion blaengar, cydweithredu, meddwl dargyfeiriol a'r tymor hir. Mae'n golygu datblygu arweinwyr o fewn y diwydiant a'i allu i helpu ei hun, entrepreneuriaeth, arloesedd a chydweithredu.
20. O ystyried yr holl ffactorau hyn gyda'i gilydd, mae cynhyrchu cynaliadwy mewn diwydiant blaengar yn golygu busnesau fferm proffidiol sy'n creu gwaith ac sy'n gwneud cyfraniad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol gwerthfawr at les Cymru.

## Sut mae mynd â'r Fframwaith yn ei flaen

### Grŵp y Bartneriaeth

21. Rydym cynnig bod y diwydiant yn sefydlu Grŵp Partneriaeth. Bydd y Grŵp yn dewis cadeirydd o'r diwydiant amaeth ac yn cytuno ar ei aelodau ac ar ei gylch gwaith. Bydd Llywodraeth Cymru'n aelod.
22. Rydym yn cynnig mai dyma fydd gwaith y Grŵp:
  - I feddiannu'r weledigaeth ac arwain y gwaith ar gyfer ei gwireddu er lles y diwydiant a lles Cymru.
  - Gweithredu fel ymbarél, ac yna tros amser, integreiddio a symleiddio grwpiau amrywiol y diwydiant / Llywodraeth Cymru sy'n gweithio yn y maes.
  - Sefydlu a rheoli grwpiau gweithredu i ddatblygu a chynnal cynlluniau gweithredu ar gyfer gwireddu'r weledigaeth, gan roi ystyriaeth lawn i'r adolygiadau sydd wedi'u cynnal o'r diwydiant a'u hargymhellion.
  - Ffocws ar weithredu sy'n arwain at effaith a chynnydd arwyddocaol.
  - Cyfathrebu, cydweithio a chydgyssylltu'n well o fewn y diwydiant a chodi ei broffil yng Nghymru.
  - Hyrwyddo ysbryd entrepreneuriaidd arloesol a blaengar o fewn y diwydiant.
  - Ystyried materion newydd allai effeithio ar y diwydiant amaeth ac ymateb iddynt, gan wneud yn siŵr bod y diwydiant yn ymateb yn dda i gyfleoedd a heriau.
  - Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hynt y daith tuag at wireddu'r weledigaeth.
23. Mae llawer wedi'i wneud eisoes. Mae prif gyrff y diwydiant eisoes wedi cymryd cam mawr at weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chyflwyno'r prif egwyddorion sy'n ymwneud â'r Rhaglen Datblygu Gwledig (**Atodiad 2**) i'r Llywodraeth. Dyma blatfform ar gyfer sefydlu Grŵp Partneriaeth. Mae nifer o gynlluniau gweithredu sectorol eisoes wedi'u paratoi ac mae nifer o adolygiadau â chynlluniau gweithredu wedi'u llunio. Cânt eu dwyn ynghyd o fewn y fframwaith dan oruchwyliaeth Grŵp y Bartneriaeth.
24. Bydd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yn gyfrwng pwysig ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth trwy ystod o gymorth gan Lywodraeth Cymru ar ran y trethdalwr a'r diwydiant amaeth.
25. Mae Llywodraeth Cymru a chyrff y diwydiant wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i droi'r weledigaeth yn realiti.

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n briodol):

E-bost/rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Dylech ddychwelyd eich ymatebion erbyn **27 Awst 2015** i'r:

Is-adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig  
Llywodraeth Cymru  
Tŷ Ladywell  
Y Drenewydd  
SY16 1JB

Neu os ydych wedi'i llenwi'n electronig, anfonwch hi i:

E-bost: [ASRPEnquiries@wales.gsi.gov.uk](mailto:ASRPEnquiries@wales.gsi.gov.uk)

**Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n gweledigaeth gytûn ar gyfer amaethyddiaeth? Beth arall fydddech chi'n ei gynnig yn ei lle?**

- Cytuno'n Gryf       Cytuno       Ddim yn cytuno nac yn anghytuno       Anghytuno       Anghytuno'n Gryf

Rheswm:

**Cwestiwn 2: Beth yw'ch ymateb i'n hasesiad o'r cyfleoedd, y bygythiadau a'r heriau y mae'n rhaid i'r diwydiant amaeth fynd i'r afael â nhw? A oes rhai eraill?**

- Cytuno'n Gryf       Cytuno       Ddim yn cytuno nac yn anghytuno       Anghytuno       Anghytuno'n Gryf

Rheswm:

**Cwestiwn 3: A oes gennych sylwadau a safbwyntiau eraill gan gynnwys sut y gallai gweithio trwy bartneriaeth weithio?**

- Oes       Nac oes

Rheswm:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

## ATODIAD 1

### **Adroddiadau craidd ac adolygiadau o'r diwydiant**

Mae'r fframwaith strategol ar gyfer Amaethyddiaeth Cymru yn gyfle i drefnu ymdrechion ac uchelgeisiau cytûn ar gyfer amaethyddiaeth Cymru gan bennu amcanion a nodau clir i'r diwydiant. Bydd yn help i gyd-drefnu adnoddau a dod â nifer o bolisiau, rhaglenni, mentrau ac adolygiadau ynghyd o bob rhan o Lywodraeth Cymru i helpu i greu diwydiant amaeth proffidiol a chynaliadwy. Yn eu plith:

- Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020
- Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Hwyluso'r Drefn: Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes ffermio
- Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru (i'w lansio Mehefin / Gorffennaf 2015)
- Strategaeth Amgylcheddol Cymru

Yn ogystal, ceir nifer o adolygiadau o'r diwydiant a datblygiadau eraill sydd eisoes (neu a fydd yn y dyfodol) yn dylanwadu ar amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym a byddwn yn eu cymryd i ystyriaeth. Yn eu plith:

- Adolygiad Annibynnol o Gadernid Ffermio yng Nghymru
- Datgloi Potensial yr Ucheldir'
- Adolygiad o Cyswllt Ffermio - Gwella a Chynyddu'r Cymorth i Ffermwyr a Choedwigwyr yng Nghymru
- Adolygiad Annibynnol o Ddarpariaeth Ddysgu Colegau Addysg Bellach a Pherthnasedd y Ddarpariaeth Honno o ran Cefnogi Busnesau Fferm
- Adolygiad o'r Sector Cig Eidion yng Nghymru
- Adolygiad Annibynnol o'r Sector Llaeth yng Nghymru
- Adolygiad o Ddefnydd Tir a Newid Hinsawdd
- Adroddiad Denu Cenhedlaeth Newydd o Ffermwyr
- Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus: Datganiad Adnoddau Naturiol a Bwyd

Annwyl Ddirprwy Weinidog

Fel diwydiant, rydym yn cydnabod bod angen i ffermio yng Nghymru addasu i'r her o golli cymorth ac i ansicrwydd cynyddol marchnadoedd domestig a rhyngwladol.

Fel cynrychiolwyr y diwydiant a chyrrff ardollau, cawsom gyfarfod yn ddiweddar a chytundeb unfrydol o'r angen am strategaeth glir a phendant ar gyfer sicrhau newid positif fydd hefyd yn gwella gallu'r diwydiant i gystadlu a gwneud elw mewn ffordd gynaliadwy.

Rydym felly wedi cytuno i bennu egwyddorion sylfaenol a ddylai fod yn sail ar gyfer strategaeth amaethyddol. Byddwn yn eu datblygu ar y cyd â'r Llywodraeth a'r diwydiant a dylai mesurau a chynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig gael eu datblygu ohonynt.

Byddem yn croesawu'r cyfle i gwrdd â chi i drafod y syniadau hyn yn fanylach ac i weld sut y gallem weithio gyda'r Llywodraeth i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r Rhaglen Datblygu Gwledig a chyfleoedd ariannu eraill i dalu am y gweithgarwch fydd yn gwneud ffermydd yng Nghymru'n fwy cystadleuol a phroffidiol.

Yn gywir





## CYNLLUN DATBLYGU GWLEDIG CYMRU (RhDG) 2014-2020

### Papur Egwyddorion

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn gyfrwng allweddol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth o ddiwydiant amaeth cynhyrchiol, proffidiol a blaengar sy'n gallu manteisio fel gwlad cynhyrchu bwyd ar gyfleoedd y dyfodol ac addasu i'r her a ddaw o golli cymorth ac i ansicrwydd cynyddol marchnadoedd domestig a byd-eang.

Mae'r Grŵp, sydd o dan arweiniad y diwydiant, yn cynnig yr egwyddorion sylfaenol canlynol ar gyfer dylunio a gweithredu'r Rhaglen Datblygu Gwledig:

- Bod yn gystadleuol a gwella hyfywedd y fferm – dyna ddylai fod yn egwyddor sylfaenol y RhDG a'r amcan sy'n ei gyrru yn ei blaen.
- Dylai'r RhDG sicrhau newid positif a thrawsffurfiol ar lefel y fferm yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd mewn strategaeth ar gyfer amaethyddiaeth.
- Dylai mesurau'r RhDG fod yn sector benodol, cael eu sbarduno gan y farchnad ac ysgogi'r gweithgarwch fydd yn cyfrannu at wneud y diwydiant yn fwy cystadleuol. Bydd mesurau sy'n arwain at gynhyrchu mwy effeithlon yn dod â buddiannau hefyd o ran y newid yn yr hinsawdd.
- Dylid cydgysylltu ac integreiddio ymdrechion ar draws holl fesurau'r RhDG i sicrhau ein bod yn cael gwerth ein harian ac i osgoi dyblygu.
- Rhaid wrth gydweithio a rhaid i'r diwydiant gymryd fel cyd-gynhyrchydd llawn.
- Dylai fod gan fesurau a chynlluniau'r RhDG effaith fesuradwy ar lwyddiant y fferm, dylent ganolbwyntio ar ganlyniadau a dylid mesur eu perfformiad ar sail cerrig milltir tymor byr, canolig a hir.
- I sicrhau newid trawsffurfiol, rhaid wrth adnoddau digonol ar gyfer cynlluniau a phrosiectau'r RhDG i annog niferoedd uchel i gymryd rhan ac i ymgysylltu.
- Dylent esgor ar fanteision ar lefel y fferm a hwyluso newid trwy gymhellion cyson ar y fferm a throsglwyddo gwybodaeth uwch.
- Dylid sefydlu bwrdd strategol ar y cyd, gyda chynrychiolwyr y diwydiant a'r Llywodraeth yn aelodau ohono, i sicrhau bod pob prosiect yn cyflawni yn unol â blaenoriaethau sy'n ymateb i'r farchnad ac sy'n benodol i'r sector.

Prif feysydd ffocws ar gyfer newid trawsffurfiol:

- Gwella geneteg
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoli a defnyddio glaswelltir
- Seilwaith, offer a thechnoleg busnesau fferm a'r gadwyn gyflenwi
- Casglu data ffisegol ac ariannol amserol